Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa
A gynhaliwyd yn Ystafelloedd Padrig a Seiriol – Canolfan Dysgu a Datblygu yr Wylfa ar dydd Iau Rhagfyr 16 2010 am 3pm.

Yn bresennol:

A Morris Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliadi yr Wylfa
N Gore	Cyfarwyddwr Safle yr Wylfa, Magnox North
P Harrop	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
L P Davies	Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear
K White	Magnox North
F Brookes	Magnox North
R G Cartledge	Magnox North
J Milburn	Magnox North
J I Jones	Magnox North
A Macmillan	Horizon Pŵer Niwlclear
R Hardy	Horizon Pŵer Niwlclear
J Eaton	Horizon Pŵer Niwlclear
L Flexman	Horizon Pŵer Niwlclear
A Hughes	Capita
K Hughes	Capita
Cyng. T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
S W Davies	Cyngor Sir Ynys Môn
G Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
T Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
I Williams	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
A Hall	Dŵr Cymru
S ap Dewi	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Gadson	FIACP
J H Jordan	FSB
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
H Parry	Bodorgan Trust Company Ltd
M O'Hara	Cyn-weithiwr yr Wylfa sydd wedi ymddeol

Hefyd yn bresennol :

H M Hughes	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifennydd Cofnodion)
Cymen	Cyfiethu ar y Pryd

1 CROESO A DERBYN YMDDIRHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2584 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Gadeirydd. Mynegodd AM Jones tristwch o golli Mr Kevin Hughes un o weithwyr yr Wylfa mewn damwain a gofynnodd i bawb i sefyll fel arwydd o barch.

2585 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan J Jones (Llywodraethwr Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch); S Andrews (Iechyd Cyhoeddus Cymru); Cyng GW Roberts OBE (Cyngor Sir Ynys Môn); Cyng D Jones (Cyngor Sir Ynys Môn); T Conway (Cymdeithas Ymddeoledigion yr Wylfa).

2 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 7^{FED} RHAGFYR 2010

2586 Roedd E Jones (Cyngor Cymuned Llanbadrig) yn bresennol yn y cyfarfod ar 7fed Hydref 2010.

2587 O ran pwynt 2574, dywedodd J H Jones y dylai fod wedi bod deunydd 'ymholltog' (fissile) ac nid deunydd 'cyllidol' (fiscal.)

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

2588 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4 DERBYN ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

2589 Anfonwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle allan gyda'r agenda cyn y cyfarfod. Rhoddodd N Gore crynodeb byr o'r adroddiad ac amlygodd y prif elfennau.

2590 Hysbysodd N Gore fod y Safle wedi derbyn cymeradwyaeth terfynol estyn oes yr Wylfa gyda'r llythyr o 'Dim Gwrthwynebiad' a dderbyniwyd oddi wrth yr NII ar y 13eg o Hydref 2010. Dywedodd ei fod yn falch o allu adael gwybod i'r staff am yr estyniad oes. I ddathlu'r cyhoeddiad fe cynhaliwyd digwyddiad cymdeithasol yn y Clwb Chwaraeon a Chymdeithas.

2591 Daethpwyd ag Adweithydd 2 yn ôl i wasanaeth ac mae'r orsaf yn awr yn gweithio ar bŵer llawn.

2592 Esboniodd N Gore fod pob un o'r 19 elfen yn awr allan o'r Cell Storio Sych 4 (DSC4) a mewn fflasg yn barod i'w hanfon i Sellafield i'w hailbrosesu.

2593 Hysbysodd N Gore fod Magnox North wedi derbyn Gwobr Sgiliau, noddwyd gan Westfield Health, hefyd hysbysodd fod y cwmni wedi dod yn ail yn y gystadleuath am Wobr Arferion Arloesol Pobl am yr ymgyrch arolesi I4. Llongyfarchodd N Gore un o brentisiaid Magnox North - Dafydd Jones wedi iddo dderbyn Cymeradwyaeth Uchel yng Nghyflawniad Eithriadol wedi iddo enill Gwobr Prentis y Flwyddyn.

2594 Dywedodd N Gore byddai cyfnod segur yr adweithydd yn dechrau ym mis Awst yn hytrach na mis Mawrth. Bydd pob tanwydd wedi ei symyd o'r safle erbyn 2015 gyda'r dyddiad symud tanwydd yn aros yr un fath.

2595 Esboniodd N Gore y bu 3 Damwain Colli Amser (Lost Time Accidents) yn ystod y 6 mis diwethaf, mynegodd fod hyn yn annerbyniol. Dywedodd fod angen iddynt gael record ddiogelwch eithriadol.

2596 Fe gyfnewidwyd feincnod pwysig rhwng Wylfa a TOYOTA UK. Daeth aelodau o'u Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ar ymweliad a'r safle i weld y gwelliannau sydd wedi'u gwneud yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd N Gore ei fod yn gyfle i ddysgu.

2597 Diolchodd N Gore i'r Gwasanaethau Brys am eu gwasanaeth prydlon wedi iddynt cael eu galw allan ar ôl i larwm tân cael ei swnio o ganlyniad i fudlosgi coil trydanol ar Drawsnewidydd Pwmp Oeri Dŵr (CW). Dywedodd fod y larymau tân yn cael eu profi'n rheolaidd ar y safle.

2598 Cyflwynwyd 2 sesiwn o Ymgyrch Diogelwch ar y Ffyrdd ar y safle gan Wasanaeth Brys Gogledd Cymru. Dywedodd N Gore ei fod yn cynnwys fideos graffig iawn o ddamweiniau traffig ffyrdd gan y Gwasanaethau Brys, ond roedd ymateb i'r digwyddiad yn bositif.

2599 Nid oedd yr Wylfa wedi llwyddo i gyrraedd targed cynhyrchu allbwn ar gyfer y cyfnod, fodd bynnag, dywedodd N Gore bod yn disgwyl cyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2600 Esboniodd N Gore fod Diwrnod Arweinydd Tîm wedi ei gynnal yn Wylfa gyda chyflwyniad diddorol gan Sally Kettle y wraig gyntaf i rhwyfo ar draws yr lwerydd ddwywaith.

2601 Dywedodd N Gore bod Horizon wedi cynnal diwrnodau agored o amgylch Gogledd Cymru dros bythefnos.

2602 Esboniodd N Gore fod Magnox North wedi noddi Gwobrau Arloesedd 2010 yn Stadiwm SWALES, Caerdydd lle cydnabyddir myfyrwyr dawnus gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones. Ymgeisiodd 15,000 o fyfyrwyr sy'n astundio Technoleg a Dylunio TGAU, Lefel AS ac A – pwysleisiodd N Gore fod hyn yn nifer anhygoel o ymgeiswyr. Fe arddangoswyd yr 80 uchaf yn y stadiwm.

2603 Bu safle'r Wylfa yn bresennol yn Sgiliau Cymru, Caerdydd gyda Horizon, Ynys Ynni a Choleg Menai. Dywedodd N Gore fod y digwyddiad wedi denu dros 20,000 o ymwelwyr.

2604 Esboniodd N Gore fod Chip Everest a Barnie Beasley, Cyfarwyddwyr Energy*Solutions* (ES) wedi ymweld ag Wylfa fel rhan o'u ymweliad â'r DU i edrych ar bortffolio gweithrediadau ES. Bydd Tony Fountain, Prif Weithredwr yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear yn ymweld ag Wylfa ar 20 Rhagfyr 2010.

2605 Dywedodd A M Jones fod estyniad oes yr Wylfa yn newyddion posatif ar gyfer yr ardal a llongyfarchwyd N Gore am ei ymdrechion a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

5 DERBYN ADRODDIADAU CADEIRYDD Y GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE

2606 Rhoddodd A M Jones grynodeb byr o Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

2607 Esboniodd A M Jones ei fod hefyd yn bresennol yn y cyfarfod Rhanddeiliaid Ynni Ynys ar 9 Rhagfyr 2010, lle bu pwyslais ar y Adeiladu Newydd. Hysbysodd A M Jones fod Bwrdd Energy*Solutions* yn ymweld ag Wylfa yn 2011. Nid oedd N Gore yn rhy siwr o hyn.

6 NEWYDDION DIWEDDARAF YR AWDURDOD DIGOMISIYNU NIWCLEAR

2608 Dosbarthwyd copi o'r newyddion diweddaraf cyn y cyfarfod.

2609 Croesawyd P Harrop I'r cyfarfod gan A M Jones. Rhoddodd P Harrop grynodeb byr o'r newyddion diweddaraf.

2610 Hysbysodd P Harrop wrth y grwp bod Drafft Cynllun Busnes Dros Dro wedi ei lansio ar 1af Rhagfyr 2010.

2611 Esboniodd hefyd fod yr NDA yn croesawu cyhoeddiad Mis Hydref y Canghellor Cyllid sy'n datgan fod gwariant wedi eu cadw ar lefelau cyfredol o tua £3 biliwn y flwyddyn ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

2612 Mae'r NDA wedi cwblhau ei ailstrwythuro yn dilyn adolygiad trefniadol cynhwysfawr a ddechreuodd ym mis Ionawr 2010. Mae'r newidiadau yn cynnwys lleihad o 30% yn nifer y staff NDA 300-210.

2613 Esboniodd P Harrop fod yr NDA wedi penodi dau Gyfarwyddwr Gweithredol newydd, Mark Lesinski fel Cyfarwyddwr Gweithredol a David Batters fel Prif Swyddog Cyllid.

2614 Dywedodd P Harrop ei fod yn gyfrifol am 5 safle gan fod y NDA yn dirprwyo mwy o gyfrifoldebau gydag ardaloedd mwy i'w cwmpasu. Eglurodd fod Jonathan Jenkin, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid yr NDA yw'r cyswllt am weithgareddau rhanddeiliaid a materion economaidd-gymdeithasol a Kelly Anderson, Rheolwr Ymgysylltu Rhanddeiliaid yw'r cyswllt ar lefel rhanddeiliaid cenedlaethol. Eglurodd hefyd y bydd y Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi o fewn y 2 fis nesaf. Ychwanegodd fod Fforwm Cadeiryddion SSG Magnox yn cael eu hystyried ar gyfer 2011.

2615 Ychwanegodd P Harrop ei longyfarchiadau ynghlyn ag estyniad oes yr Wylfa a diolchodd i bawb am eu gwaith da.

2616 Dywedodd S W Davies fod yr NDA yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Ynys Ynni gyda chymorth gan Dr Sara Johnson.

2617 Gofynnodd J H Jones a oedd gan yr NDA newyddion diweddar ynghylch a pham fod rhai safleoedd penodol yn anaddas ar gyfer y prosiect Cyfleuster Gwaredu Daearegol (Geological Disposal Facility). Esboniodd P Harrop nad oedd ganddo unrhyw ddiweddariadau.

2618 Dywedodd A M Jones ei fod yn ymwybodol o'r gwaith da gan yr NDA a bod hyn yn bwysig i etifeddiaeth a chyfnod cynaliadwyedd.

7 ADRODDIAD AROLYGYDD AROLYGIADAU NIWCLEAR EM

2619 Cyn y cyfarfod anfonwyd allan copi o'r adroddiad.

2620 Rhoddodd LP Davies grynodeb byr iawn o'r adroddiad a dywedodd mai prif elfen yr adroddiad oedd caniatâd i ail-ddechrau Adweithydd 2 ac y llythyr 'Dim Gwrthwynebiad' ar gyfer estyn oes y safle.

8 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRWP ECONOMAIDD GYMDEITHASOL YR WYLFA

2621 Eglurodd J H Jones bod y grŵp wedi cyfarfod ar 21 Hydref 2010 gyda 2 cais wedi eu hystyried o'r sector addysg, a'i cymeradwyo yn unol ag argymhellion yr NDA.

9 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRWP GWASTRAFF YR WYLFA

2622 Eglurodd A M Jones y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

10 ADRODDIAD DATBLYGU CYNALIADWY MAGNOX NORTH

2623 Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad cyn y cyfarfod.

2624 Ymddiheurodd J I Jones dros Michelle Humphreys gan nad oedd hi'n gallu bod yn bresennol. Eglurodd J I Jones fod yr adroddiad wedi cael ei gynhyrchu gan M Humphreys ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wneir gan Safleoedd Wylfa, Trawsfynydd a Maentwrog.

2625 Llongyfarchodd J H Jones y gwaith aeth i fewn i'r adroddiad. Eglurodd J I Jones y byddai'n croesawu unrhyw adborth ynghlyn a'r adroddiad. Llongyfarchodd A M Jones yr adroddiad hefyd.

11 SESIWN HOLI AC ATEB AGORED

2626 Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau

12 UNRHYW FATER ARALL

2627 Nid oedd dim busnes arall i'w drafod.

13 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2628 Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2011.

2629 Diolchodd A M Jones i bawb am fynychu'r cyfarfod ac am eu cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn. Dymunodd A M Jones nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb. Daeth y cyfarfod i ben am 3:45pm.